# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Hydref 2023

Amser: 09.01 - 09.10

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn trafodion Cyfnod 3.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.15pm.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Pwyllgor Busnes am ei bwriad i wneud datganiad byr a gwahodd y Senedd i gynnal eiliad o fyfyrio dros y rhai y mae'r gwrthdaro yn Israel a Phalesteina wedi effeithio arnynt. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Llywydd hefyd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i wneud datganiadau byr.

**Dydd Mercher**

Ar gais y Llywodraeth, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid aildrefnu dadleuon y gwrthbleidiau i hwyluso'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ymateb i ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar iechyd meddwl, fel y nodir isod:

- Dadl Plaid Cymru: Cyllid canlyniadol HS2 (60 munud) *aildrefnwyd i eitem 7*
- Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Iechyd meddwl (60 munud) *aildrefnwyd i* e*item 8*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

Gofynnodd y Llywydd i’r Rheolwyr Busnes atgoffa aelodau eu grwpiau na ddylent gyrraedd yn hwyr ar gyfer eitemau y maent am gyfrannu iddynt a dywedodd ei bod hi a'r Dirprwy Lywydd yn bwriadu cymryd agwedd gadarn at beidio â galw Aelodau mewn amgylchiadau o'r fath yn y dyfodol. Gofynnodd y Llywydd hefyd i’r Rheolwyr Busnes atgoffa Aelodau o'r disgwyliad nad ydynt yn gadael y Siambr yn ystod eitemau y maent wedi cyfrannu iddynt.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i’r Rheolwyr Busnes nad oes unrhyw newidiadau i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 8 Tachwedd 2023 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Huw Irranca-Davies (Ogwr) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio i’r Pwyllgor Newid

Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau i gyflwyno adroddiad ar 16 Hydref;

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio.

Nododd y Pwyllgor Busnes nad yw'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn bwriadu adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio gan fod y gwelliannau a gaiff eu cwmpasu gan y Memorandwm hwnnw y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor. Am yr un rheswm, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 5) i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch ei gyfarfod ar 4 Rhagfyr 2023

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gwrdd yn gynharach na'i amser cyfarfod a drefnwyd ar 4 Rhagfyr, er mwyn hwyluso sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.